# Gweithio'n galed i glirio pentref

MAE grŵp gwirfoddol newydd wedi ei sefydlu yn y Felinheli ger Bangor o'r enw Felin Daclus sydd yn bwriadu cynnal prosiectau i wella amgylchedd ac edrychiad y pentref.

Sefydlwyd y grŵp mewn cyfarfod cyhoeddus ym mis Tachwedd y llynedd. Y cyngor cymunedol a'r cynghorydd sir lleol fu'n gyfrifol am alw'r cyfarfod ar gais nifer o bentrefwyr yn dilyn cwynion cyffredinol am ysbwriel a baw cŵn.

Erbyn hyn, mae nifer o gynghorwyr cymuned yn 'wardeiniaid sbwriel' mewn rhannau o'r pentref.

Yn y cyfarfod cyntaf gyda swyddogion o Gyngor Gwynedd a Threfi Taclus, penderfynwyd ar bum prosiect penodol – ymgyrch baw cŵn gyffredinol a fydd yn targedu perchnogion anghyfrifol, ymgyrch casglu ysbwriel, ymchwiliad i gynllun rhandaliadau ar dir diffaith ger Lôn Las Menai, gwella coedlan Cerrig yr Afon a fydd yn adnodd amgylcheddol i'r ysgol gynradd leol sydd gerllaw a gwella coedlan arall ger Lôn Las Menai i greu llwybrau pren a bocsys adar.

Y digwyddiad cyntaf sydd ganddynt ar y gweill yw diwrnod Casglu Ysbwriel Noddedig ar y cyd â Chlwb Pêl-droed Ieuenctid y pentref ar y 17eg o Fai.

Bydd y criw yn dechrau o'r Felin Sgwrsio ar Stryd Bangor am 2 o'r gloch ac yn dychwelyd yno ar ôl prynhawn caled o waith i gael paned neu hufen ia.

Meddai'r cynghorydd lleol, Sian Gwenllian: "Gan fod Lee Oliver o Trefi Taclus yn dod ar Fai'r 17eg, bydd cyfle hefyd i drafod rhai o'r syniadau eraill, felly gobeithio y gallwch chi ymuno â ni.

"Un syniad yw mynd i weld sut mae pentrefi eraill yn trefnu rhanddaliadau, neu alotments.

"Yn y cyfamser, efallai y gallwch ein helpu drwy wneud ychydig o ymchwil ar y pwnc?

"Bydd swyddog o Gyngor Gwynedd yn ymuno â ni hefyd i drafod y syniad o osod bocsys adar mewn rhannau o'r pentref ar y cyd â phlant a phobl ifanc leol.

"Mae croeso i unrhyw syniadau ar sut i gael gwared â baw cŵn. Edrychaf ymlaen i weld mwy a mwy o bobl yn ymuno yn ymgyrch Felin Daclus."

# gor Gŵyl